OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 1132

# Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014

## RHAN 9

## PWYLLGORAU CYRFF LLYWODRAETHU

### Sefydlu pwyllgorau y corff llywodraethu

**66.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i bwyllgorau'r corff llywodraethu yn ddarostyngedig i reoliadau 67, 68 a 69.

(2) Rhaid i'r corff llywodraethu benderfynu ar gyfansoddiad, aelodaeth a chylch gwaith unrhyw bwyllgor y penderfyna ei sefydlu, a'u hadolygu'n flynyddol.

(3) Rhaid i'r corff llywodraethu benodi cadeirydd yn flynyddol ar bob pwyllgor neu raid i'r pwyllgor ei ethol, yn ôl penderfyniad y corff llywodraethu.

(4) Rhaid i bwyllgor ethol aelod o'r pwyllgor hwnnw i weithredu fel cadeirydd yn absenoldeb y cadeirydd a benodwyd o dan baragraff (3).

(5) Ni chaiff unrhyw berson a gyflogir i weithio yn y ffederasiwn neu mewn ysgol ffederal, nac un o ddisgyblion cofrestredig y ffederasiwn neu ysgol ffederal, weithredu fel cadeirydd pwyllgor.

(6) Caiff y corff llywodraethu ddiswyddo cadeirydd unrhyw bwyllgor ar unrhyw adeg.

(7) Caiff aelodaeth pwyllgor gynnwys disgybl-lywodraethwyr cyswllt a phersonau nad ydynt yn llywodraethwyr, a mater i'w benderfynu gan y corff llywodraethu yw i ba raddau y bydd gan y cyfryw aelodau hawl i bleidleisio.

(8) Rhaid i fwyafrif yr aelodau ar unrhyw bwyllgor fod yn llywodraethwyr, heb gynnwys unrhyw ddisgybl-lywodraethwyr cyswllt.